**Sarah Newman**

yn edrych ar frwydr y merched i oresgyn rhagfarn ac ennill yr hawl mwyaf sylfaenol

# Pleidleisiau i Ferched

Pasiwyd y Mesur a roddodd hawl i rai merched bleidleisio i'r Senedd yn 1918. Roedd merched oedd yn talu trethi wedi gallu pleidleisio ar gyfer byrddau ysgolion rhwng 1870 ac 1902 (y blynyddoedd roedden nhw mewn bodolaeth) ac mewn etholiadau llywodraeth leol ers 1888. Roedd ganddynt hawl i ddod yn gynghorwyr ers 1907. Roedd merched wedi pleidleisio i'r llywodraeth yn Seland Newydd, yn Awstralia, y Ffindir, Norwy, Denmarc, Gwlad yr Iâ a Rwsia, a hyd yn oed yn Ynys Manaw.

Nawr, am y tro cyntaf roedd gan ferched Prydain, oedd dros 30 oed, ac a oedd yn talu trethi neu'n briod â threthdalwr – cyfanswm o wyth miliwn a hanner – yr hawl i bleidleisio mewn etholiadau i'r llywodraeth ganolog, ac fe wnaethant hynny yn yr etholiad cyffredinol ar 14 Ragfyr 1918. Penderfynwyd ar yr oed 30 i ferched er mwyn bod yn siŵr na fyddai'r mwyafrif o'r pleidleiswyr yn ferched. Roedd hyd yn oed Arthur Henderson, Llafur, wrth gynnig rhyddfreinio cyffredinol yn ffafrio 25 fel yr oed i ferched gael y bleidlais. Ofnid eu bod yn garfan geidwadol.

Yn yr un ddeddfwriaeth cafodd pob gwryw dros 21 oed y bleidlais, yn ogystal â phob un oedd yn 19 a throsodd a oedd wedi bod yn y lluoedd arfog. Bellach, nid oedd dynion oedd yn derbyn cymorth y tlodion i gael eu gwahardd rhag pleidleisio. Hefyd o hyn allan deddfwyd mai dwy bleidlais yn unig fyddai gan y rhai oedd wedi bod yn gallu pleidleisio fwy nag unwaith am eu bod yn berchen tŷ i fyw ynddo a lle busnes, neu fod ganddynt bleidlais prifysgol. Roedd y Ddeddf hon yn gam tipyn pellach tuag at ddemocratiaeth na'r deddfau i Ddiwygio'r Senedd yn 1832, 1867 ac 1884. Ddeng niwrnod ar ôl arwyddo'r cytundeb heddwch fe'i dilynwyd gan Ddeddf Cymhwyster Merched: "Ni chaiff merch ei chyfrif yn anghymwys i gael ei hethol nac i eistedd neu bleidleisio fel Aelod o Dŷ'r Cyffredin, oherwydd ei rhyw neu oherwydd ei bod yn briod". Yn 1919 daeth yn bosibl i ferched gael eu derbyn ym mhob proffesiwn ar wahân i'r eglwys.

***'Roedd yr ofn y byddai merched, a gyfrifid yn fwy piwritanaidd na dynion, o blaid deddfwriaeth fyddai'n gwarafun yfed a phleserau gwrywaidd eraill, yn uno dynion o bob dosbarth.'***

Achos uniongyrchol y newid hwn oedd Cynhadledd y Llefarydd. Roedd Asquith wedi ei sefydlu yn 1916 i ymholi i'r rhyddfraint. Oherwydd symudedd yn y boblogaeth ers 1885 ffwlbri noeth oedd credu bod yna etholaethau cyfartal. Roedd 3,000 o bleidleiswyr yn Windsor o'i gymharu â 53,000 yn Romford. Roedd cofrestr etholwyr y blynyddoedd cyn y rhyfel wedi hen ddyddio a byddai glynu wrthi yn gwahardd dynion oedd yn y lluoedd arfog. Ac os na ellid amgyffred y gallai fod yn bosibl i ddynion oedd yn gwasanaethu eu gwlad gael eu gwahardd, beth am y merched oedd yn ei gwasanaethu?

Cafwyd adroddiad Cynhadledd y Llefarydd yn fuan wedi i Lloyd George ddod yn Brif Weinidog. Pasiwyd o blaid gofyn i ddynion brofi eu cymhwyster trwy fod wed byw yn yr un lle am chwe mis ac iddynt gael un bleidlais luosog yn unig. Cynigiai hefyd roi'r bleidlais i rai merched. Ar waethaf gwrthwynebiad Curzon a Carson, roedd cabinet y rhyfel yn cefnogi'r cynigion. Pasiwyd y mesur yn Nhŷ'r Cyffredin ar ddiwedd 1917 heb fawr ddim dadlau dros gwestiwn a fu'n un llosg cyn hynny – pleidlais i ferched.

Teimlai Ceidwadwyr y byddai mwy o newidiadau syfrdanol pe baent yn gohirio'r penderfyniad hyd ddiwedd y rhyfel. Roedd herio llywodraeth Lloyd George yn golygu y gallai Asquith ddod yn ôl i rym, a pherswadiwyd yr Arglwyddi i beidio â niweidio'r glymblaid ryfel. Pam ynteu roedd y syniad wedi achosi cymaint o helynt cyn hyn?

## Cadw merched yn is-raddol

Roedd rhai Aelodau Seneddol wedi gwrthwynebu unrhyw newid. Ymunodd y rhai oedd yn gwrthwynebu unrhyw newid yn y rhyddfraint â nhw. Gan sylweddoli bod cael y bleidlais yn gyfrifoldeb pwysig, ar ôl 1884 roeddent yn amharod i weld ymestyn yr etholaeth, oedd fel pe'n hynod anwadal gan fod deddfwriaeth y flwyddyn honno wedi peri bod gan tua dwy ran o dair o'r boblogaeth wrywaidd yr hawl i bleidleisio.

***' "… mae'r ferch gyffredin yn israddol i'r dyn cyffredin … Hyd yn oed o safbwynt prydferthwch corfforol mae dyn yn rhagori." '***

Yna, roedd problemau ynglŷn â'r dull y byddid yn rhoi'r rhyddfraint i ferched. Byddai rhoi'r bleidlais i bob oedolyn yn annerbyniol i'r rhai oedd yn gwrthwynebu democratiaeth. Ofnai Rhyddfrydwyr y byddai rhyddfreinio'r bobl oedd yn byw mewn slymiau yn golygu pleidlais uwch i'r sosialwyr; ofnai Llafur y byddai'n cynyddu'r pleidleisiau i'r Ceidwadwyr. Pe câi merched oedd wedi priodi perchenogion tai y bleidlais, gellid barnu bod hynny'n annemocrataidd oherwydd y byddai'n cryfhau pleidlais y dosbarth oedd ag eiddo. Ond pe rhoddid y bleidlais i ferched oedd eu hunain yn berchenogion tai yn unig – merched oedd naill ai'n ddi-briod neu'n weddwon – byddai hynny'n diraddio merched oedd yn byw gyda'u gwŷr. Roedd y posibilrwydd y gallai puteiniaid gael hawl i bleidleisio a gwragedd priod gael eu gwahardd yn syniad di- chwaeth.

Ac wrth gwrs, roedd rhai yn gwrthwynebu rhoi'r bleidlais i ferched o ran egwyddor. Dadleuai'r gwyddonydd Thomas Huxley 'mae'r ferch gyffredin yn israddol i'r dyn cyffredin ym mhob nodwedd ragorol, boed feddyliol neu gorfforol, yn yr ystyr fod ganddi lai o'r nodwedd honno ac ei bod o ansawdd waelach. Hyd yn oed o safbwynt prydferthwch corfforol mae dyn yn rhagori'. Ym marn y Frenhines Fictoria, 'Crëodd Duw ddynion a merched yn wahanol; felly boed i'r naill a'r llall fod yn fodlon ar ei safle. Byddai merch yn dod yn fod atgas, anwar a ffiaidd pe caniatâi iddi ei hun gael ei dadfenyweiddio a beth ddeuai o'r gofal y mae dyn wedi ei fwriadu i'w roi dros y rhyw wannach?'

Roedd rhai ceidwadwyr cymdeithasol yn teimlo mai yn y cartref roedd y ferch i fod. Un esiampl oedd y nofelydd, Marie Corelli, a ysgrifennodd yn ei llyfr *Woman or Suffragette?* (1907): 'Ydyn ni am agor drysau cartrefi cysegredig a dymunol Lloegr i ystrywiau asiantwr etholiadol? … Yn hytrach gadewch i ni ddefnyddio popeth o fewn ein gallu i wrthwynebu yr hyn a fyddai'n drychineb cenedlaethol … Oherwydd gyda merched yn unig mae'r Cartref, sy'n sylfaen yr Ymerodraeth, yn ddiogel. Pan fyddant yn troi cefn ar hwn, eu canolfan a benodwyd gan Dduw, craidd bodolaeth genedlaethol, yna bydd pethau'n simsanu hyd at gwymp. "Y Bleidlais i Ferched" yw cri soniarus nifer o ferched sy'n ymddangos fel pe baent yn anfodlon, sydd wedi colli gorau bywyd ac mae bron yn ddibwrpas ail-ddweud y gwir plaen mai tynged merch yw cenhedlu pleidleiswyr yn hytrach na bod yn un ohonynt.'

Ofnai Radicaliaid gwrth-glerigol fod merched yn geidwadol wrth natur, yn enwedig ym myd crefydd. Ofnai Radicaliaid eraill y byddai cyflogwyr yn dwyn pwysau gwleidyddol ar ferched. Dadleuai rhai Ceidwadwyr, gan fod merched yn rhy wan i weithredu'r gyfraith y byddai caniatáu i ferched bleidleisio yn arwain at anarchiaeth. Nid oedd gan ferched y nerth i ymladd ac ni ddylent fod â'r hawl i benderfynu mewn achosion a allai arwain at anfon dynion i frwydr.

Dadleuid y byddai cenhedloedd oedd dan reolaeth Prydain yn dirmygu cenedl oedd yn caniatáu i ferched bleidleisio. Byddai'r syniad yn wrthun i ddeiliaid oedd yn Fwslimiaid a gallai beri i bobl frodorol feddwl fod ganddyn nhw hawl i bleidlais. Roedd Cromer, Curzon, Kipling, oedd o blaid yr Ymerodraeth, ymysg y rhai oedd yn gwrthwynebu rhoi'r bleidlais i ferched.

Roedd y gred gyffredinol, fod merched yn seicolegol yn ansad, oriog yn enwedig ar adegau – oherwydd y misglwyf neu yn ystod y blynyddoedd pan oedd wedi ei atal – a'r gred bod diffyg cydbwysedd p'un bynnag yn rhan o'u natur, yn cryfhau'r safbwynt a roddodd sail i'r 'ddau sffêr cwbl ar wahân'. Felly hefyd yr hyn a gyfrifid yn ddiffyg profiad o'r byd. Byd y gwryw oedd clybiau gwleidyddol a Thŷ'r Cyffredin ei hun. Roedd amgylchedd gwrywaidd yr ysgol fonedd a'r fyddin wedi dylanwadu ar y rhai oedd yn eu mynychu. Hefyd, i'r rhai oedd yn teimlo bod beicio hyd yn oed yn ormod o dreth ar ferch, yn bygwth ei delwedd fenywaidd ac yn 'dinistrio ei naturioldeb a'i diniweidrwydd annwyl', roedd yn hawdd credu y byddai gwleidyddiaeth yn llygru moesoldeb dyrchafedig merched.

Roedd Gladstone wedi ofni y byddai rhyddfreinio merched yn 'tresmasu ar eu breuder, eu purdeb, eu lledneisrwydd, popeth oedd yn dyrchafu eu holl natur'. Roedd Asquith yn credu bod 'gwahaniaethau na ellid eu dileu o ran gallu a swyddogaeth' yn perthyn i'r ferch. Ei hagwedd at y bleidlais meddai oedd un o 'ddifrawder digyffro a dioglyd'. Dywedid bod merched yn gweld popeth yn nhermau'r personol, a bod eu diddordeb mewn manion dibwys. Lle'r dyn oedd gweithredu'n wleidyddol ar ran ei wraig a'i ferched. Cyhoeddodd Octavia Hill y byddai ymwneud â gwleidyddiaeth nid yn unig yn milwrio

yn erbyn dyletswyddau merched yn y tŷ ond hefyd yn lleihau dylanwad merched mewn cylchoedd anwleidyddol, mewn gweithgaredd elusennol, er enghraifft.

Dadleuid bod merched wedi gwella eu cyfleoedd addysgol ac yn cael eu hamddiffyn mor dda gan ddeddfau roedd Aelodau Seneddol gwrywaidd wedi eu hybu, megis Deddfau Eiddo Merched Priod a'r Deddfau Ffatrïoedd, fel nad oedd arnynt angen nac eisiau'r bleidlais. Roedd yr ofn y byddai merched, a gyfrifid yn fwy piwritanaidd na dynion, o blaid deddfwriaeth fyddai'n gwarafun yfed a phleserau gwrywaidd eraill, yn uno dynion o bob dosbarth.

Cadarnhau'r gred bod diffygion yn perthyn i'r ferch o safbwynt ei natur a'i gallu wnaeth ymddygiad y swffragetiaid. Sefydlodd Emmeline Pankhurst Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched (y WSPU) yn 1903 gyda'r pwyslais ar weithredoedd uniongyrchol nid geiriau. Dewisodd y merched ddefnyddio trais am fod arweinyddion gwleidyddol yn mynnu cael prawf bod merched wirioneddol eisiau'r bleidlais ac oherwydd bod trais ym mlynyddoedd cynnar yr 1830au wedi peri i fwy o ddynion gael eu rhyddfreinio. Ond bu i weithredoedd y merched – llosgi, torri ffenestri, dinistrio darluniau cain a difrodi cyrsiau golff, hunan-laddiad tybiedig Emily Davison mewn modd dramatig, taflu morthwyl at farnwr mewn llys barn a thomato at gyfreithiwr – beri i nifer o gefnogwyr llugoer ailystyried a oeddent o blaid rhyddfreinio merched.



Mrs Pankhurst a'i merch yn modelu ffasiwn y carchar yn 1908

Er bod y mwyafrif o Ryddfrydwyr yn barod i roi'r bleidlais i ferched, nid felly Asquith, oedd yn imperialydd Rhyddfrydol. I'r gwrthwyneb, ymysg y Ceidwadwyr, dim ond Balfour oedd ag unrhyw gydymdeimlad. Roedd yn rhaid i'r llywodraeth Ryddfrydol ystyried pa bryd y byddai'n addas ystyried y mater hefyd. Ar ddechrau eu cyfnod mewn grym roedd yn rhaid rhoi'r flaenoriaeth i ddiwygio cymdeithasol; ar ôl 1910 y brif ystyriaeth oedd Ymreolaeth i Iwerddon. Effaith Deddf y Senedd yn 1911 oedd arafu pob deddfwriaeth gan beri bod mesurau roedd yr Arglwyddi'n eu gwrthwynebu yn mynd drwy Dŷ'r Cyffredin deirgwaith. Rhoddodd hyn fwy o bwyslais ar yr ymgyrch i ennill Ymreolaeth a chafodd bygwth trais yn Ulster fwy o ddylanwad ar Asquith na gweithredoedd y swffragetiaid yn Llundain a'r Siroedd Cartref.

## Pam roedd merched eisiau'r bleidlais

Ymgyrchwyr heddychlon, y swffragwyr, oedd prif ffrwd y merched oedd yn hawlio'r bleidlais, nid y rhai milwriaethus oedd yn denu sylw'r wasg. Roedd merched wedi bod yn ceisio cael eu rhyddfreinio ers Deddf Ddiwygio 1867, mewn dull heddychlon. Roedd gwrthod eu cais yn ymddangos fel pe bai'n arwydd o'u hisraddoldeb honedig. Roedd y bleidlais ynddi ei hun yn symbol o statws ac yn agor drws i sicrhau gwelliannau cymdeithasol, economaidd a chyfreithiol i ferched.

***'Roedd y gred gyffredinol, fod merched yn seicolegol yn ansad ... yn cryfhau'r safbwynt a roddodd sail i'r 'ddau sffêr cwbl ar wahân'.'***

Mor gynnar ag 1792 roedd Mary Wollstonecraft yn ei llyfryn A Vindication of the Rights of Women, wedi hawlo 'CYFIAWNDER i hanner yr hil ddynol ... Mae'n bryd peri chwyldro ym moesau merched, mae'n bryd rhoi eu hurddas coll yn ôl iddynt; gwneud iddynt, a hwythau'n rhan o'r hil ddynol, lafurio trwy eu diwygio'u hunain i ddiwygio'r byd'. Yn 1825 roedd William Thompson a Mrs Wheeler wedi cyhoeddi *An appeal of one half of the human race, Women, against the pretensions of the other half, Men, to retain them in political and thence in civil and domestic slavery.*

Roedd Jeremy Bentham, athronydd enwocach na William Thompson, hefyd yn cefnogi rhyddfreinio merched, fel John Stuart Mill, gŵr deallus enwog arall genhedlaeth yn ddiweddarach. Yn Awst 1832 hawliodd Henry Hunt, yr Aelod Seneddol Radical, y bleidlais i ferched sengl oedd yn berchen eiddo yn ôl y gofynion newydd. Ar ôl i Ddeddf Diwygio 1832 siomi'r dosbarth gweithiol, bu Siartiaeth yn dominyddu byd gwleidyddiaeth radical, yn ysbeidiol, dros bron ddau ddegawd. Roedd rhyddfraint i oedolion yn un o'r chwe phwynt a restrid yn y Siarter ac er mai pleidleisiau i ddynion oedd ystyr hyn i lawer, roedd rhai o'i gefnogwyr yn ffafrio'r syniad o roi'r bleidlais i bob oedolyn. Roedd Disraeli wedi cychwyn ar ei yrfa wleidyddol fel Radical. Er ei fod yn arwain

y Ceidwadwyr yn y Senedd erbyn 1866, dywedodd am y ferch ar y pryd, 'Dydw i ddim yn gweld, gan fod ganddi gymaint i'w wneud â'r wladwriaeth a'r Eglwys, am ba resymau, os ydych yn ystyried yr hyn sy'n iawn, nad oes ganddi'r hawl i bleidleisio'.

Yn 1868, dadleuai Richard Pankhurst, a gafodd ei alw i'r bar yn 1867, fod gan ferched hawl i'r bleidlais o dan amodau Deddf Diwygio 1867. Ceisiodd rhai merched oedd yn berchen tai gael eu cynnwys yn y Gofrestr Seneddol newydd. Pan gafodd eu henwau eu dileu gwnaethant apêl i'r Uchel Lys a gweithredodd Richard Pankhurst fel bargyfreithiwr ieuaf dros y merched. Colli'r achos fu eu hanes.

Trefnodd Lydia Becker, sefydlydd Cynghrair Swffragetiaid Manceinion, i fesurau oedd yn ffafrio pleidleisiau i ferched gael eu cyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin yn ystod yr 1870au. Ni chafwyd unrhyw lwyddiant. Yn niwedd yr 1880au sefydlodd Richard Pankhurst y Cynghrair Rhyddfreinio Merched. Yn 1897 ffurfiwyd Undeb Cenedlaethol Cymdeithasau Rhyddfreinio Merched gyda Mrs Fawcett yn Llywydd cyntaf. Ar y dechrau, nid oedd hi'n gwrthwynebu mudiad milwriaethus y swffragetiaid, yr WSPU, a enynnodd ddiddordeb o'r newydd yn yr ymgyrch i ennill y rhyddfraint a thrwy ailbwysleisio pwysigrwydd rhyddfreinio merched a barodd fod nifer oedd yn amharod i dorri'r gyfraith wedi ymuno â'r ymgyrchwyr heddychlon. Fodd bynnag, yn y pen draw parodd ymddygiad y swffragetiaid i nifer o gefnogwyr posibl droi cefn ar yr ymgyrch.

Gan fod y rhan fwyaf o ferched yn treulio'u bywydau yn cael plant a'u magu, mae'n bosibl y byddai eu byd wedi gwella yn gyflymach pe byddid wedi hysbysebu dulliau i atal cenhedlu, fel y ceisiodd Mrs Besant ddangos yn 1870. Ond roedd yn ddigon o straen eisoes ar y swffragwyr a'r swffragetiaid i brotestio – byddai ymgyrchu dros atal cenhedlu wedi peri i'r rhai mwyaf parchus ohonynt bechu'n anfaddeuol. Roedd ymddwyn fel y gwnaethon nhw wedi golygu troi cefn ar flynyddoedd o hyfforddiant cymdeithasol coeth. Protestiodd merched yn Vienna yn 1912, y swffragwyr, trwy drefnu gorymdaith coetsys.

## Effaith Rhyfel

Ar ddechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf daeth gwaredigaeth i'r llywodraeth Ryddfrydol a'r swffragetiaid. Penderfynodd y swffragetiaid beidio ag ymgyrchu'n filwriaethus. Gollyngodd y llywodraeth y carcharorion yn rhydd. Yn 1916 gofynnodd Edwin Montague, y Gweinidog Arfau ar y pryd, yn y Senedd, 'Ble mae'r dyn fyddai nawr yn gwarafun i'r merched eu hawliau sifil a enillwyd trwy lafur caled?' Nid oedd yn rhaid i Asquith gywilyddio – gallai ddweud bod cyfraniad y merched i'r ymdrech ryfel wedi peri iddo ailystyried ei wrthwynebiad i roi'r bleidlais iddyn nhw.

***'Dywedid bod merched yn gweld popeth yn nhermau'r personol, a bod eu diddordeb mewn manion dibwys. Lle'r dyn oedd gweithredu'n wleidyddol ar ran ei wraig a'i ferched.'***

## Llinell Amser

**1792** Mary Wollstonecraft yn dadlau nad yw merched yn israddol

**1865** Mill yn dadlau fod merched yn gyfartal a chanddynt hawl i'r bleidlais

**1867** Sefydlu cymdeithasau i hawlio'r bleidlais yn Llundain, Birmingham, Manceinion, Bryste.

**1897** Sefydlu'r NUWSS – Undeb Cenedlaethol Cymdeithasau o blaid Rhyddfreinio Merched

**1903** Sefydlu'r WSPU – Undeb Cymdeithasol a Gwleidyddol y Merched i hybu ymgyrch 'gweithredoedd nid geiriau'.

**1905** Christabel Pankhurst yn cael ei arestio am greu cynnwrf ym Manceinion

**1908** Mehefin: 250,000 yn gwrthdystio yn Hyde Park

**1908** Hydref: Emmeline a Christabel Pankhurst yn y carchar am beri rhwystr yn ystod gorymdaith i Dŷ'r Cyffredin

**1909** Y cyhoedd yn protestio am fod y llywodraeth yn camdrin y merched oedd ar streic lwgu yn y carchar trwy orfodi bwyd arnynt

**1912** Swffragetiaid yn torri ffenestri siopau a chlybiau yn y West End

**1913** Carcharu arweinwyr y swffragetiaid am losgi a bomio – Emmeline Pankhurst yn datgan bod VD ar 80% o ddynion

**1914** Mehefin: Emily Davison yn ei merthyru ei hun – ei thaflu ei hun o dan garnau ceffyl y brenin yn y Derby, ar ôl gosod torch flodau ar gerflun o Jeanne d'Arc

**1914** Awst: Swffragetiaid yn ymwrthod â dulliau milwriaethus dros gyfnod y rhyfel

**1917** Cynhadledd y Llefarydd yn argymell rhyddfreinio nifer cynfyngedig o ferched

**1918** Merched oedd dros 30 oed yn cael y bleidlais

**1919** Ethol Nancy Astor – y ferch gyntaf i ddod yn Aelod Seneddol

**1928** Merched dros 21 oed yn cael y bleidlais ar yr un telerau â dynion

Ond mae'n amheus ai dyna'r prif reswm. Nid oedd y merched oedd wedi bod yn gweithio yn y ffatrïoedd arfau yn debyg o fod yr oedran iawn na bod yn berchen eiddo. Mae'n bosibl fod ofn y llywodraeth y byddai'r swffragetiaid yn ailgydio yn eu hymgyrch filwriaethus yn rhannol gyfrifol am y penderfyniad. Roedd y rhyfel ei hun, 'i wneud y byd yn ddiogel i ddemocratiaeth' wedi creu amgylchfyd ffafriol ar gyfer newid disgwyliedig a chyfle i hybu sefydliadau democrataidd.

Nid hyd 1928 y cafodd merched eu rhyddfreinio ar yr un telerau â dynion – gan lywodraeth Geidwadol. Nid oedd Churchill yn hoffi'r *'flapper-vote'* a gafwyd am fod Joyson-Hicks wedi ei haddo, yn annisgwyl, mewn cyfarfod cyhoeddus. Mynegodd Arglwydd Birkenhead ei wrthwynebiad, ond roedd teyrngarwch i'r blaid yn golygu bod yn rhaid iddo gefnogi mesur Ceidwadol ac fe anogodd ei gyd-arglwyddi i wneud hynny hefyd. Ni pharodd y Ddeddf fawr o gyffro er ei bod wedi peri bod pum miliwn yn fwy o etholwyr, gyda merched nawr yn fwyafrif.

## Canlyniadau rhyddfreinio merched

Ni ddatblygwyd plaid i ferched. Ceisiodd Christabel Pankhurst greu un a ddisgrifiwyd gan Sylvia fel 'sefydliad Diwygio Tariff, Ceidwadol, Ymerodrol, jingoistaidd'. Chwythu plwc a wnaeth. Dyna fu hanes y teulu i gyd. Aeth Mrs Pankhurst ar daith ddarlithio i'r Unol Daleithiau ac yna i Ganada. Fe'i derbyniwyd yn ymgeisydd y Ceidwadwyr dros Whitechapel yn y man. Bu farw yn y flwyddyn pan gafodd merched 21 oed y bleidlais. Aeth Christabel i fyw i'r Unol Daleithiau ac ymroi'n frwd dros grefydd. Ffurfiodd Sylvia, wedi i'w mam a'i chwaer droi cefn arni yn Ionawr 1914, Ffederasiwn Dwyrain Llundain i Ferched mewn Gwaith. Roedd hi'n heddychwraig yn ystod blynyddoedd y Rhyfel Mawr. Ymunodd â'r Blaid Lafur ac yna'r Comiwnyddion gan ymgyrchu dros achos Haile Selassie. Ymfudodd y ferch ieuengaf, Adela, i Awstralia cyn y rhyfel.

Nid oedd y merched a ddaeth yn Aelodau Seneddol gyntaf y math yr oedd y Pankhursts wedi ei ragweld. O'r 17 o ymgeiswyr oedd yn ferched yn 1918 dim ond yr Iarlles Marcievicz, Constance Gore-Booth fu'n llwyddiannus. Ond gwrthododd y ferch gyntaf i gael ei hethol i'r Senedd gymryd ei sedd yno. Dewisodd ymuno ag Aelodau Sinn Fein i ffurfio senedd yn Nulyn – Dail Eireann. Y ferch gyntaf i eistedd yn Westminster oedd Nancy Astor a etholwyd gan etholaeth Plymouth yn Lle'i gŵr yn 1919 pan symudodd ef i Dŷ'r Arglwyddi.

***'Yn 1922 … nid oedd tŷ bach i'r merched yn Nhŷ'r Cyffredin.'***

Nododd Frances Stevenson, ysgrifenyddes Lloyd George a'i ail-wraig, er nad oedd yn hoff o Nancy Astor: '1 Rhagfyr 1919. Es i weld y ferch gyntaf yn cymryd ei sedd fel Aelod Seneddol yn y Tŷ. Roedd yn wefr wirioneddol, nid yn unig o safbwynt personol ond oherwydd y ffaith mai dyma'r tro cyntaf, wedi'r holl gannoedd o flynyddoedd, i ferch roi ei throed ar lawr [Tŷ'r Cyffredin] i gynrychioli'r bobl – neu nifer arbennig o'r bobl. Roedd deigryn yn fy llygaid pan welwn hi'n dod i mewn yn y pen pellaf – merch osgeiddig iawn – ac aros ei thro i gerdded hyd y llawr'.

Pan etholwyd Ellen Wilkinson yn 1922, hi oedd yr Aelod Seneddol o ferch ieuengaf, ac roedd yn rhaid iddi hi a'r pedair arall rannu un swyddfa a dim ond pedair cadair. Nid oedd tŷ bach i'r merched yn Nhŷ'r Cyffredin. Ni thalwyd sylw o ddifrif i'r merched oedd yn Aelodau Seneddol hyd yr Ail Ryfel Byd. Bryd hynny sefydlodd Nancy Astor Bwyllgor Grym y Merched ac ym mis Mai 1940 penderfynodd y merched ym mhob plaid oedd yn Aelodau Seneddol orfodi rhaniad, gan godi cywilydd ar y blaid Lafur a pheri rhannu'r Tŷ a threchu llywodraeth Chamberlain.

## Merched yn y Senedd

| | Nifer yn ymgeisio | Nifer a etholwyd /600+ |
|---|---|---|
| **1918** | 17 | 1 |
| **1922** | 33 | 2 |
| **1923** | 34 | 8 |
| **1924** | 41 | 4 |
| **1929** | 69 | 14 |
| **1931** | 62 | 15 |
| **1935** | 67 | 9 |
| **1945** | 87 | 24 |
| **1950** | 126 | 21 |
| **1951** | 77 | 17 |
| **1955** | 92 | 24 |
| **1959** | 81 | 25 |
| **1964** | 90 | 29 |
| **1966** | 81 | 26 |
| **1970** | 99 | 26 |
| **1974** (Chwef) | 143 | 23 |
| **1974** (Hyd) | 161 | 27 |
| **1979** | 206 | 23 |
| **1983** | 276 | 23 |
| **1987** | 325 | 41 |
| **1992** | 568 | 60 |

*cydnabyddiaeth i'r Grŵp 300*

Ar ddiwedd yr Ail Ryfel Byd roedd 24 o ferched yn Aelodau Seneddol. Yn 1969 roedd 27 o ferched yn Nhŷ'r Cyffredin: 18 Llafur, 7 o Geidwadwyr, 1 Genedlaetholwraig Albanaidd ac un Annibynnol sef Bernadette Devlin – yn 22 oed hi oedd yr ieuengaf o'r merched oedd yn Aelodau Seneddol. Yn 1987 roedd

41, yn 1992 roedd 59. Rhwng 1919 ac 1969 roedd pedair merch wedi eu dyrchafu i'r Cabinet – Margaret Bondfield, Gweinidog Llafur yn Llywodraeth Lafur 1929-31, Ellen Wilkinson, Gweinidog Addysg yn Llywodraeth Lafur 1945-55, Florence Horsborough, Gweinidog Addysg y Ceidwadwyr, 1951-55, a Barbara Castle yn olynol yn y swyddi Gweinidog Datblygiadau Tramor, Gweinidog Trafnidiaeth, Prif Ysgrifennydd Gwladol dros Gyflogaeth a Chynnyrch yn Llywodraeth Lafur 1964-70.

Ar gyfartaledd, mae'n ymddangos bod merched a bleidleisiai yn yr etholiadau wedi cefnogi'r blaid Geidwadol hyd 1979 ond bryd hynny dyna droi cefn ar y Ceidwadwyr. Yn 1975 y Ceidwadwyr oedd y blaid gyntaf i ethol merch yn arweinydd – Margaret Thatcher, a ddaeth yn Brif Weinidog yn 1979. Etholodd ei holynydd ddwy ferch i'r Cabinet– Virginia Bottomley i'r adran iechyd ac wedi hynny yn Weinidog Treftadaeth, a Gillian Shepherd mewn amrywiol swyddi gan gynnwys cyflogaeth ac addysg. Cafodd Linda Chalker sedd yn Nŷ'r Arglwyddi er mwyn iddi allu dal i wneud ei gwaith i hybu cymorth dramor. Yn 1992 etholwyd y ferch gyntaf yn Llefarydd. Ond mae cryn waith eto i'w wneud cyn gweld 'Grŵp 300' yn cyrraedd eu nod o weld ethol 300 o ferched i'r Senedd. Mae Teresa Gorman wedi cyflwyno mesur aelod unigol yn cynnig haneru'r nifer o etholaethau a chael pob un i ddychwelyd dau Aelod Seneddol, un yn ddyn ac un yn ferch.

Ai dyna'r dyfodol?

## Atodiad Dr Elin Jones

Mae'r erthygl hon yn arolwg o'r dadleuon o blaid gwrthod y bleidlais i ferched a'r rhesymau dros roi'r bleidlais iddynt ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Fe'u trafodir yng nghyd-destun hanes Lloegr yn unig, ond mae'n bwysig cofio bod yr un dadleuon i'w clywed yr ochr hon i Glawdd Offa hefyd. Er enghraifft, cafodd bywyd cyhoeddus Cranogwen (Sarah Jane Rees, 1839-1916, ysgolfeistres, bardd a golygydd *Y Frythones*, cylchgrawn i ferched) ei feirniadu gan y rhai a gredai, yng ngeiriau ei chofiannydd, "mai rhyw bethau i'w cau i fyny mewn tai i weini ar 'wŷr a gweision' oedd ac a yw merched a gwragedd" (D. G. Jones, *Cofiant Cranogwen*, 1932). Ar y llaw arall, roedd cyfarfodydd cyhoeddus i ddadlau dros roi'r bleidlais i fenywod yn cael eu cynnal yng Nghymru mor gynnar â'r 1870au. Bu gwaith elusennol ac yn enwedig y mudiad dirwest yn fodd i nifer o fenywod Cymru ymgyrchu'n gyhoeddus am y tro cyntaf. Cafodd y dadlau dros ryddfreinio merched gefnogaeth llawer yn y blaid Ryddfrydol i gychwyn, ar adeg pan oedd y blaid honno'n cynyddu ei dylanwad yng Nghymru. Yn 1891 sefydlodd gangen i ferched yn Aberdâr, a dilynwyd hynny gan nifer o ganghennau eraill. Roedd rhyddfreinio merched yn un o amcanion Cymru Fydd hefyd, ac roedd methiant y mudiad hwnnw, a gwrthwynebiad rhai o arweinwyr y blaid Ryddfrydol i ryddfreinio merched, yn ffactor yn nhŵf y Blaid Lafur yng Nghymru, yn enwedig ar ôl i'r blaid honno dderbyn rhyddfreiniad merched fel un o'i hamcanion yn 1912.

Mae Sarah Newman hefyd yn olrhain hanes y cymdeithasau fu'n ymgyrchu dros roi'r bleidlais i ferched yn Lloegr. Sefydlwyd canghennau o'r NUWSS yn Llandudno yn 1907, yn Rhyl a Chaerdydd yn 1908. Erbyn 1912-3 cangen Caerdydd oedd y fwyaf ym Mhrydain ac eithrio cangen Llundain. Roedd y WSPU a'r WFL yn weithgar yng Nghymru hefyd, gan drefnu nifer o gyfarfodydd cyhoeddus a gafodd sylw yn y wasg yng Nghymru. Un o'r protestiadau a gafodd lawer o sylw oedd yr un a drefnwyd yn yr Eisteddfod Genedlaethol a gynhaliwyd yn y Royal Albert Hall yn 1909.

Er mai ymateb i ymgyrch a ddechreuodd yn Lloegr oedd yr ymgyrch dros y bleidlais i ferched yng Nghymru, mae'n amlwg ei bod yn rhan annatod o'r agenda gwleidyddol yng Nghymru erbyn dechrau'r Rhyfel Byd Cyntaf. Mae'n bur debyg bod gwrthwynebiad Lloyd George i'r ymgyrch yn ffactor barodd wanhau nerth y mudiad yng Nghymru. Bu'n gefnogol i'r syniad ar ddechrau ei yrfa, ond newidiodd ei feddwl ar ôl 1909. Roedd ei gyfarfodydd gwleidyddol yn darged i'r WSPU ac roedd y gwrthdystiadau hyn, megis y rhai yng Nghaernarfon a Llanystumdwy yn 1912, yn ennyn cynddaredd y dorf a gefnogai eilun gwleidyddol y Cymry. Nid oedd merched Cymru – yn fwy na merched Lloegr – wedi ymateb yn frwd i'r cyfle a gawsant yn 1918. Dim ond un fenyw oedd yn ymgeisydd seneddol yn etholiad 1918 yng Nghymru, a phrin iawn oedd eu nifer trwy gydol yr ugeinfed ganrif. Yn eironig, un ohonynt oedd y Foneddiges Megan Lloyd George, merch Lloyd George ei hun. Bu cynnydd ar ôl 1979, fel yn Lloegr, ac yn enwedig ar ôl etholiad cyffredinol 1997, ac y mae'n ddiddorol sylwi bod 25 o ferched yn aelodau o'r Cynulliad Cymreig, allan o 60 i gyd [yn 2001].

## Llyfrau Ar Bleidleisiau i Ferched

M. Pugh, *Votes for Women in Britain 1867-1928*, Historical Association, 1994

C. Haste, *Rules of Desire*, Chatto & Windus, 1992

D. Atkinson, *Suffragettes*, Museum of London, 1988

A. Marwick, *Women at War 1914-18*, Fontana, 1977

R. Adams, *A Woman's Place*, Chatto & Windus, 1975

K. Hudson, *The Place of Women in Society*, Ginn, 1970

Nid oes un astudiaeth lawn o'r ymgyrch dros ryddfreinio merched yng Nghymru, ond ceir arolwg cyffredinol yn:

W. Gareth Evans, *Rôl a Statws Merched yn yr Ugeinfed Ganrif*, CAA, 1998 (fersiwn Saesneg – The Role and Changing Status of Women in the Twentieth Century)

Deirdre Beddoe, *Out of the Shadows*, UWP, 2000

Colin P. F. Hughes, Catrin Stevens ac R. Paul Evans, *Y Newid yn Rôl a Statws Menywod yn ystod yr 20fed Ganrif*, CAA, 2012 (fersiwn Saesneg – The Changing Role and Status of Women during the 20th Century)

ac erthyglau defnyddiol yn *Our Mothers' Land: Chapters in Welsh Women's History 1830-1939*, gol. Angela V. John (UWP, 1991)

Addaswyd ac atgynhyrchwyd gyda chaniatâd History Today o *History Review*, Mawrth 1996: *Votes for Women*, Sarah Newman

Gwnaethpwyd pob ymdrech i olrhain a chydnabod deiliaid hawlfraint. Bydd y cyhoeddwyr yn falch o wneud trefniadau addas gydag unrhyw ddeiliaid na lwyddwyd i gysylltu â hwy.

Dylunydd: Richard Huw Pritchard

Cyfieithydd: Eirlys Roberts